

Cofion

- Anfonwn ein cofion heddiw at y rhai sy'n cael gofal yn y gwahanol ysbytai – Morfudd Roberts (Llanefydd) yn Ysbyty Glan Clwyd; Kitty Parry (Llanefydd) yn yr Inffirmari; Glenys Jones (Llanefydd) yn Ysbyty Rhuthun; ac Elizabeth Hughes (Llansannan) yn Ysbyty Bae Colwyn. Diolchwn amdanynt, a chyflwynwn hwy i'r Arglwydd gan ofyn Iddo gysgodi drostynt. Mae'n dda cael adrodd fod Nia Clwyd Dolben Roberts (Cefn Berain) a Heddwyn Davies (Llansannan) wedi dod adref o'r ysbyty erbyn hyn. Parhawn i gofio amdanynt ac am eraill o'n plith sydd heb fod yn dda eu hiechyd y dyddiau hyn.
- Mae eraill o'n plith sy'n galaru am anwyliaid a gweddiwn y byddant oll yn adnabod cysur cwmni Duw a'i dangnefedd dros y dyddiau anodd hyn.

Hysbysebu swydd

Yr wythnos hon, bydd hysbyseb yn ymddangos yn *Y Pedair Tudalen*, ar wefannau'r enwadau, ac ar y gwefannau cymdeithasol am Gynorthwydd Gweinidogaethol ar gyfer y cyfnod Medi 2015 – Awst 2016. Os oes unrhyw un o ddarlennwyr *Llais Bro Aled* yn awyddus i gael manylion y swydd ynghyd â ffurflen gais, mae croeso i chi wneud hynny trwy gysylltu ag Aneurin. Bydd y dyddiad cau ar Fehefin 8fed.

I ddod

- **DARLITH “MARI JONES AC ANN GRIFFITHS – Y BEIBL, YR EMYN A THOMAS CHARLES”** gan yr Athro E. Wyn James yn Ffestri Llansannan nos Lun, Mehefin 1af am 7.30. Croeso cynnes i bawb.
- **PENWYTHNOS MERCHED** yn y Bala ar Mehefin 12fed–13eg. Cysylltwch â'r Coleg i gael ffurflen gofrestru: colegybala@ebcpcw.org.uk / 01678 520565. Mae angen archebu lle erbyn Mai 29ain.
- **CYMANFA GANU ANNIBYNWYR DYFFRYN CLWYD** dydd Sul, Mehefin 14eg yng Nghapel Lôn Swan, Dinbych am 2.30. Cymanfa o emynau plant ac oedolion o Ddetholiad 2014-15. Arweinydd: Nia Evans, Talwrn. Croeso cynnes i bawb.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 10^{fed} Mai 2015

Darlleniad y Dydd

Genesis 9:8-17

(BCND tud.7 / BCN: tud.7)

www.eglwysibroaled.com / www.rhaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Croeso cynnes i chi i'n holl wasanaethau ym Mro Aled heddiw. Lle bynnag y byddwn yn addoli'r Arglwydd, gweddiwn am galonau agored a pharodrwydd i ymateb i arweiniad yr Ysbryd Glân trwy ddod at Iesu mewn ffydd a diolchgarwch. A hithau'n wythnos Cymorth Cristnogol, cofiwn hefyd am y miliynau sydd mewn angen a thlodi enbyd ar hyd a lled ein byd. Boed i ni ymroi yn llawen i gyfrannu'n hael, yn ymarferol ac mewn gweddi, tuag at ymdrechion ymhell ac agos i gynorthwyo eraill yn enw Iesu Grist.

Erbyn hyn mae canlyniadau'r Etholiad Cyffredinol yn hysbys (oni bai eich bod yn darllen *Llais Bro Aled* yn ddigidol yn hwyr ar nos lau!) Wedi'r holl ymgyrchu, yr anghytuno a'r dadlau, bydd gennym syniad gwell o fewn ychydig ddyddiau pwy fydd yn barod i gydweithio gyda'i gilydd er mwyn llywodraethu yn San Steffan am y pum mlynedd nesaf. Wrth gwrs, er mwyn i hynny ddigwydd, rhaid i garfannau gwahanol ddod at ei gilydd i drafod a chyfaddawdu cyn cytuno ar gytundeb o ryw fath, boed hwnnw'n glymblaid ffurfiol neu'n drefniant achlysurol. Diflas iawn i'r rhai ohonoch sy'n ceisio osgoi gwleidyddiaeth rwy'n siŵr! Ond yn hyn i gyd, gwelwn mor bwysig yw ymddiriedaeth. Rhaid i bleidiau sy'n gweithio â'i gilydd ymddiried y bydd y lleill hefyd yn cadw eu rhan hwy o'r fargen! Y munud y bydd yr ymddiriedaeth yn diflannu rhwng y partneriaid, bydd y cytundeb rhyngddynt mewn perygl o gael ei dorri hefyd. Wrth i ni droi at ein darlleniad o Genesis 9 heddiw, gwelwn Dduw yn sefydlu cyfamod â Noa, ei etifeddion, a'r holl greaduriaid a ddaeth allan o'r arch. Yn y cyfamod hwn mae'r Arglwydd yn addo peidio dinistrio'r ddaear trwy ddilyw eto ac yn rhoi arwydd yr enfys i gadarnhau hynny. Yn wahanol i gytundebau rhwng pobl â'i gilydd, mae cyfamod a wneir gan Dduw yn gwbl gadarn. Gallwn ymddiried yn llwyr yn Ei gyfamod oherwydd mai Duw sy'n ei sefydlu ac yn ei weithredu hefyd. Tybed faint ohonom sy'n ystyried y newyddion da am Iesu Grist yn y termau hyn? Duw yn dweud, ac yna Duw yn gwneud? Cofiwn mai uchafbwynt yr holl Ysgrythur yw'r hyn y daeth Iesu i'n byd i'w wneud – ewyllys ei Dad. Ni yw'r rhai sydd wedi anufuddhau i Air Duw dro ar ôl tro, ond yr Arglwydd yw'r un sydd wedi parhau'n ffyddlon serch hynny. Yn Iesu Grist cyflawnwyd popeth i sicrhau i'r rhai sy'n credu faddeuant llawn, cymod rhyngom â Duw (2 Cor. 5:19), a gobaith gwirioneddol y cawn fyw am byth ym mhresenoldeb yr Arglwydd (Datguddiad 21:3). Hyn oll a ninnau'n haeddu dim! Diolchwn heddiw am ras a chariad Duw yn darparu mor hael ar ein cyfer, a gofynnwn am gymorth o ddydd i ddydd i barhau i ymddiried ynddo Ef yn unig.

DILYNWCH NI: [@eglwysibroaled](https://twitter.com/eglwysibroaled)

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma – 10^{fed}

- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, a bydd Aneurin yn pregethu.

Mawrth – 12^{fed}

- **Sasiwn Chwiorydd Y Gogledd** yng Nghapel Seilo, Llandudno (LL30 2DY). Disgwylir y Parch. Casi Jones, Clynnog i annerch am 2.00 a Delyth Wyn Davies, Chwilog am 5.30. Darperir paned o de yn festri Capel Seilo rhwng y ddau gyfarfod, ac mae digon o gyfleusterau i gael bwyd ar y Stryd Fawr. Mae manylion y cyfleusterau parcio wedi ei anfon i bob eglwys. Croeso cynnes i bawb.

Mercher – 13^{eg}

- **Adnabod – Grŵp Mair** yn cyfarfod y Granar, Llansannan am 7.30.

Iau – 14^{eg}

- **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.

Gwener – 15^{fed}

- **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.

Sul nesaf – 17^{eg}

- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams, a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

Sul yma – 10^{fed}

Cynhelir Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yng Nghefn Meiriadog am 10.30 gyda chinio cynnil i ddilyn. Pris: £5.00 – yr elw i Cymorth Cristnogol. Bydd yr Ysgol Sul yn dilyn y cinio. Bydd Aneurin yn arwain oedfa Cymorth Cristnogol yn Llanfair am 2.00.

Llun – 11^{eg}

Bydd cinio a sgwrs i'w gael yn Festri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb. (SYLWCH AR Y NEWID DIWRNOD)

Sul nesaf – 17^{eg}

Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Rhaghysbys

Fe wneir casgliad arbennig tuag at Apêl Nepal yn ystod yr oedfa yng Nghefn Meiriadog ar Fai 24ain.

Henllan a Groes

Sul yma – 10^{fed}

Cynhelir Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yn Groes am 10.00 ac Ysgol Sul am 2.00. Cynhelir Gwasanaeth Cymorth Cristnogol Undebol yn Eglwys Henllan am 11.00, a bydd yr Ysgol Sul am 2.00.

Sul nesaf – 17^{eg}

Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00. Cynhelir Sasiwn y Plant yng Nghapel Peniel am 2.00. Yr arweinydd fydd Mrs Mair Beech Williams. Bydd y casgliad yn mynd tuag at waith y Samariaid.

Cyhoeddiadau

Llansannan

Sul yma – 10^{fed}

Cynhelir Oedfa Cymorth Cristnogol Undebol yn yr Eglwys am 11.00. Ni fydd Ysgol Sul heddiw.

Iau – 14^{eg}

Cinio'r Jangl am 12.00.

Sul nesaf – 17^{eg}

Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.

Rhaghysbys

Gan fod Olwen Lloyd yn dymuno cael ei rhyddhau o'i chyfrifoldeb presennol, bydd cyfarfod yn y Granar nos Lun, Mai 18fed am 7.30 i unrhyw un sydd â diddordeb i drafod sut orau i barhau i ddarparu Cinio Jangl. Rwy'n siŵr ein bod i gyd yn dymuno diolch yn ddiffuant iawn i Olwen am ei gwasanaeth hynod werthfawr dros nifer fawr o flynyddoedd. Diolch Olwen!

Tanyfron a Nantglyn

Sul yma – 10^{fed}

Cynhelir Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yn Nantglyn am 2.00.

Sul nesaf – 17^{eg}

Cynhelir Sasiwn y Plant yng Nghapel Peniel am 2.00. Yr arweinydd fydd Mrs Mair Beech Williams. Bydd y casgliad yn mynd tuag at waith y Samariaid.

Saron a Pheniel

Sul yma – 10^{fed}

Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.

Sul nesaf – 17^{eg}

Cynhelir Sasiwn y Plant yng Nghapel Peniel am 2.00. Yr arweinydd fydd Mrs Mair Beech Williams. Bydd y casgliad yn mynd tuag at waith y Samariaid.

Llanefydd a Chefn Berain

Sul yma – 10^{fed}

Cynhelir Gwasanaeth Undebol Cymorth Cristnogol yn Eglwys Llanefydd am 9.30. Bydd cyfle i brynu nwyddau Masnach Deg ar ddiwedd y gwasanaeth.

Gwener – 15^{fed}

Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Yr enwau i'w cyflwyno i Eluned (540453) neu Carol (540320) **erbyn dydd Sul, Mawrth 10fed**, os gwelwch yn dda.

Sul nesaf – 17^{eg}

Bydd Rhodri yn arwain oedfa deulu i'r daith yn Llanefydd am 10.00 ac fe wneir casgliad arbennig tuag at Apêl Nepal yn ystod yr oedfa. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion yng Nghefn Berain am 2.00.

Darlleniad Wythnos Nesaf

Luc 6:27-36 (BCND tud.69 / BCN: tud.63)